**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD AR 15 GORFFENNAF 2025, DRWY ZOOM AM 7:00 Y.H**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Rhys Parry (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Richard Robinson, Cemlyn Jones, Gwynedd Williams, Hefin Jones, Berwyn Parry Jones, Philip Roberts, Ann Lawton

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorydd Beca Brown

**CLERC:** Meirion Jones

**1477. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod a diolchwyd am bresenoldeb yr aelodau

**1478 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriad fel a nodwyd uchod

**1479. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan a'i cofnodi fel yn briodol

**1480. I dderbyn cofnodion cyfarfod 17 Mehefin 2025**

Derbyniwyd y cofnodion y gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1481. Unrhyw fater yn codi o'r cofnodion**

Dim

**1482. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Philip Roberts fel cynrychiolydd y cyngor ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanrug.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, cynrychiolydd y cyngor ar y bwrdd llywodraethu fel a ganlyn

Cynhaliwyd trydydd cyfarfod y flwyddyn i Lywodraethwr Ysgol Gynradd Llanrug ar 7.7.25.

Cafwyd adroddiad y Pennaeth ar sefyllfa gyfredol yr Ysgol;

rhai materion a phwyntiau i'w nodi yw bod 267 o ddisgyblion ar y gofrestr a rhagwelir ffigwr tebyg am 25/6;

presenoldeb yn 93.36% ac yn parhau i gynyddu yn flynyddol ;

ymddygiad nifer bach iawn o ddisgyblion wedi bod yn heriol ar dechrau'r flwyddyn ysgol -gwaith mewnol , cymorth allanol a chydweithio gyda theuluoedd wedi gwella'r sefyllfa;

cydweithio effeithiol gyda theuluoedd yn gyffredinol mewn nifer o ffyrdd e.e.. adroddiadau, nosweithiau arbennig, Ffrindiau'r Ysgol

buddsoddi mewn staff e.e.. hyfforddiant proffesiynol ; gweithgareddau academaidd, lles a cymdeithasol i'r disgyblion e.e.. gwersi cerddoriaeth, chwaraeon, Cyngor yr Ysgol, Yr Urdd.

Cyflwynwyd y cyllid am 25-26 a'r oblygiadau staffio, dosbarthiadau a.y.y.b.

Adroddwyd bod trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd i Gynllun Busnes ar gyfer safle Tŷ'r Ysgol yn parhau.

Braf oedd nodi hefyd sylw'r Pennaeth yn yr adroddiad bod cyswllt da wedi sefydlu rhwng yr Ysgol a'r Cyngor Cymuned ac yn parhau ar nifer o faterion.

Cyflwynwyd adroddiad, er gwybodaeth , am y cyfarfod Cyhoeddus a threfnwyd gan y Cyngor Cymuned ar Orffennaf 1af ynglŷn â Chynllun Tai Glanffynnon.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1483. I dderbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Llanrug a Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd**

**1484. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor y Fynwent (Cynghorydd Philip Roberts)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, Cadeirydd y Pwyllgor fel a ganlyn

Diolch i'r clerc ac aelodau'r pwyllgor am eu cyfraniad i'r cais ar gyfer cystadleuaeth Mynwent y Flwyddyn.

Cafwyd cadarnhad bod gwaith ar gofebion "categori un" yn y fynwent wedi ei chwblhau.

Cynhelir cyfarfod nesaf is-bwyllgor y Fynwent ar ôl asesiad risg blynyddol y Fynwent sydd yn digwydd ar ddechrau mis Awst.

Ar agenda'r cyfarfod bydd canlyniad yr asesiad risg, ymgynghoriad blodau plastig, cymwysterau torrwr beddi, a gwaith yn y fynwent.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1485. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau (Cyng Avril Jones)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y pwyllgor nad oedd cyfarfod wedi gynnal ers y cyfarfod llawn diwethaf o'r cyngor. Fodd bynnag adroddodd fod nifer o waith yn parhau i'w gael ei wneud.

Nodwyd fod y gwaith i atgyweirio offer yn y parc sglefrio ar y gweill ond fo dy contractwr ddim wedi gallu cael mynediad i'r safle yn y cyfnod ble roedd wedi gobeithio gwneud y gwaith oherwydd gwaith ar y briffordd. Adroddwyd bydd y gwaith yn cael ei wneud nawr ôl gwyliau'r Haf.

Adroddwyd fod sylw wedi ei wneud gan un o ddefnyddwyr y cae chwarae fod plentyn wedi brifo ar un o'r offer. Nodwyd fod y cyngor wedi gofyn am fwy o fanylion am y digwyddiad ond ni dderbyniwyd ymateb pellach am y digwyddiad. Nodwyd fod yr offer ddim ond newydd gael asesiad risg gan aseswr proffesiynol ac ni adnabuwyd risg yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1486. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor Cyllid a Mwynderau (Cyng Avril Jones)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y pwyllgor nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod ers cyfarfod llawn o'r cyngor diwethaf. Fodd bynnag adroddwyd fod y cyngor wedi derbyn adroddiad yr archwiliwr mewnol a doedd dim pryder gan yr archwiliwr am drefniadau'r cyngor.

Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1487. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C25/0465/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Estyniad unllwr i gefn yr eiddo.
**Ymgeisydd:** Nia a Mike Pierce
**Asiant:** Gwyn Williams (Haydn E Williams Cyf)
**Cyfeiriad:** Garnedd, 1, Min Y Parc, Ceunant, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RN
**Cyfeirnod Grid:** 253732, 362595.00000000116
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Dim gwrthwynebiad

b) **Rhif y Cais:** C25/0460/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Estyniad unllawr cefn
**Ymgeisydd:** Jade Leung

**Asiant:** Gwyn Williams (Haydn E Williams Cyf)
**Cyfeiriad:** 6 Minffordd, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4PU
**Cyfeirnod Grid:** 253526.99999999994, 363093.0000000002
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Dim gwrthwynebiad

c) **Rhif y Cais:** C25/0435/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Newidiadau ac Estyniad Arfaethedig.
**Ymgeisydd:** Aled Evans
**Asiant:** Mr Marcus Liptrot
**Cyfeiriad:** Deulyn Ffordd Minffordd, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4PT
**Cyfeirnod Grid:** 253461.99999999997, 363131.0000000004
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Dim gwrthwynebiad

Daeth y cyfarfod i ben am 20:00

**Arwyddwyd**

**Cadeirydd:** **Dyddiad:**